Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

10.02.23

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Hoffwn eich hysbysu o rai dyddiadau pan fydd yr ysgol ar gau. Rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd diwrnod hyfforddiant staff ychwanegol yn ystod y flwyddyn ysgol. **Bydd dydd Llun Ebrill yr 17eg felly yn ddiwrnod hyfforddiant staff**, ac felly yn ddiwrnod pan fydd yr ysgol ar gau i'r disgyblion. Hoffwn eich atgoffa hefyd o'r dyddiadau pwysig canlynol :

Dydd Gwener Chwefror 17eg – yr ysgol yn cau am yr hanner tymor
Dydd Llun Chwefror 27ain – yr ysgol yn ail agor i'r staff ac i'r plant
Dydd Gwener Mawrth 31ain – Diwedd tymor - yr ysgol yn cau am y Pasg
Dydd Llun 17eg o Ebrill – Diwrnod hyfforddiant
Dydd Mawrth 18fed o Ebrill – yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion
Dydd Llun Mai 1af – Gwyl y Banc
Dydd Llun Mai 8fed – Gwyl y Banc
Dydd Gwener 26ain o Fai – Yr ysgol yn cau am yr hanner tymor
Dydd Llun 5ed o Fehefin – Yr ysgol yn ail agor i'r staff a disgyblion
Dydd Iau Gorffennaf 20fed – Diwedd tymor – yr ysgol yn cau am yr haf i staff a disgyblion.

Absenoldebau/Prydlondeb - Mae presenoldeb yn flaenoriaeth barhaus nid yn unig i'r ysgol ond hefyd i'r Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth a'r ysgol yn monitro lefelau presenoldeb ac yn cysylltu gyda theuluoedd pan bydd pryderon yn codi o ran lefelau presenoldeb unigolion. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol, ac mae'r Awdurdod Lleol a'r ysgol yn annog teuluoedd i osgoi tynnu plant o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor. Os yw eich plentyn yn sâl, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol yn syth ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn. **Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda**. Ar gyfer pob cais i gymryd plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor, gofynnir i chi yn awr i gwblhau ffurflen ysgol sydd ar gael o'r brif fynedfa. Bydd angen cyflwyno cais oleiaf bythefnos cyn y dyddiad.

Cynllun Ysgolion Iach – Fel ysgol rydym wedi ymrwymo i gynllun ysgolion iach yr Awdurdod Lleol. Rhan o hyn yw hybu yr elfen o fwyta yn iach ar draws yr ysgol. Gan fod amryw o ddisgyblion ym mlynyddoedd 3 – 6 yn dod a byrbrydau ei hunain i'r ysgol, hoffwn eich atgoffa na ddylid dod a byrbrydau megis siocledi, fferins a chreision i'r ysgol ar gyfer byrbrydau amser egwyl. Yn hytrach gofynnir i'r plant ddod a byrbrydau mwy iachus e.e. ffrwyth, iogwrt, caws. Gofynnir hefyd i'r plant i beidio dod a photeli o ddiodydd egni, a pop i'r ysgol, ond yn hytrach dod a diod o ddŵr neu sudd ffrwythau mewn potel/fflasg bwrpasol sydd wedi marcio gyda'i enw ef/hi.

Dod a theganau ac eitemau eraill o adref i'r ysgol – Gofynnwn i bob rhiant/gofalwr sicrhau nad yw'r plant yn dod a theganau, peli ac eitemau eraill o eiddo personol arall o'r cartref i'r ysgol, oni bai fod yr athro/awes wedi gofyn yn benodol i'r dosbarth wneud hynny. Yn aml gall amharu ar y diwrnod ysgol wrth i eitemau fynd ar goll neu gael ei difrodi a gall achosi pryder i'r plentyn, Yn ogystal, gall greu sefyllfa sydd yn cymryd llawer o amser yr athro/awes yn ystod y diwrnod ysgol prysur pan mae gofyn i staff ymchwilio i faterion a allai gael ei hosgoi pe bai eitemau o'r fath yn cael ei cadw adref.

Cyfathrebu – Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol (www.hooson.cymru), e.bost, Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal â App yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth